**Cyfrifoldeb Rhieni**
**Therapi Galwedigaethol Plant**

**Adran Therapi Galwedigaethol**

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer rhieni plant sydd wedi'u hatgyfeirio at Wasanaeth Therapi Galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB).

Pan fydd plentyn wedi'i asesu gan therapydd galwedigaethol, cynhelir trafodaeth gyda'r rhiant (rhieni) a'r plentyn os bydd hynny'n briodol am ba ymyrraeth sydd ei hangen. Bydd angen caniatâd y plentyn neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ar gyfer yr ymyrraeth hon.  Heb y caniatâd hwn, ni ellir cynnal ymyrraeth therapi.

Yn ystod ymyrraeth, mae'n bosibl y bydd yn rhaid newid y math o driniaeth. Bydd angen caniatâd pellach ar gyfer hyn.

## Pryd mae plentyn yn cael ei ystyried yn addas i roi caniatâd?

Gall plant cymwys benderfynu ar nifer o agweddau o'u gofal eu hunain, os byddan nhw'n deall goblygiadau eu triniaeth.

Gall pobl ifanc 16 i 18 oed roi caniatâd eu hunain i gael triniaeth.

Gall plant o dan 16 oed sy'n deall yn iawn yr ymyrraeth a gynigir, hefyd roi caniatâd.  Mae'n rhaid i'r plentyn fod yn ddigon aeddfed i ddeall natur y driniaeth sy'n cael ei chynnig, y risgiau, y buddion a'r dewisiadau eraill sydd ar gael.

## Beth yw cyfrifoldeb rhieni?

Mae cyfrifoldeb rhieni'n cyfeirio at hawliau, dyletswyddau, pwerau a chyfrifoldebau sydd gan y mwyafrif o rieni dros eu plant.

Heb gyfrifoldebau rhieni, ni allwch fod yn rhan o benderfyniadau am ofal iechyd y plentyn.

## Pwy sydd â chyfrifoldeb rhieni?

- Mamau – mae gan fam fiolegol (naturiol) gyfrifoldeb rhiant dros ei phlentyn yn awtomatig.

- Tadau priod - bydd tad plentyn yn cael cyfrifoldeb rhiant os bydd yn briod i'r fam pan fydd y plentyn yn cael ei eni neu os bydd ef a'r fam yn priodi'n ddiweddarach.

- Rhiant mabwysiedig – yn cael cyfrifoldeb rhiant wrth fabwysiadu.

- Rhieni o'r un rhyw – bydd gan y ddau/ ddwy gyfrifoldeb rhieni os oedden nhw'n bartneriaid sifil adeg y driniaeth e.e. ymhadiad gan roddwr neu driniaeth ffrwythlondeb.

## Pwy nad sy'n cael cyfrifoldeb rhieni'n awtomatig?

- Llys rieni – er y gallan nhw gael cyfrifoldeb rhieni dros blant eu priod drwy orchymyn preswylio.

- Tadau di-briod - os na fydd tad plentyn yn briod i'r fam, nid yw'n awtomatig yn cael cyfrifoldeb rhiant. Bydd tad di-briod yn cael hyn os:-

    - bydd yn priodi'r fam
    - oedd y plentyn wedi'i eni ar ôl 1 Rhagfyr 2003 a bod ei enw ar y dystysgrif geni
    - bydd y Llys yn rhoi gorchymyn sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant iddo
    - bydd y fam a'r tad yn gwneud cytundeb cyfrifoldeb rhieni.

- Partneriaid un rhyw nad sy'n bartneriaid sifil – gall yr ail riant gael cyfrifoldeb os:-

    - bydd yn dod yn bartner sifil y rhiant arall a'u bod yn gwneud cytundeb cyfrifoldeb rhieni
    - byddan nhw'n cofrestru'r enedigaeth gyda'i gilydd
    - bydd cytundeb rhieni wedi'i wneud

- Rhieni maeth - nid oes gan y rhain gyfrifoldeb rhieni, cedwir hyn gan y rhieni. Rhennir cyfrifoldeb rhieni rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol pan fydd gorchymyn gofal wedi'i wneud. Pan fydd gorchymyn preswylio wedi'i wneud, rhennir cyfrifoldeb rhieni rhwng y rhieni a deilydd y gorchymyn preswylio.

**Dirprwyo cyfrifoldeb rhieni**
**(in loco parentis)**

Gall unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhieni ddirprwyo, drwy gytundeb ar lafar neu ysgrifenedig, gyfrifoldeb rhieni i berson arall fel tad-cu/ mam-gu. Gall y person dirprwyedig wedyn gydsynio i driniaeth i'r plentyn neu unrhyw newid i driniaeth.

Cyfrifoldeb y rhiant yw trafod gyda'r person dirprwyedig ddeilliant unrhyw ofal y mae'r plentyn wedi'i gael.

**Cyfeirebau**

Polisi Cydsynio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) (2004)

British Medical Association (2004) Parental Responsibility Guidance from the Ethics Department.

Department for Education and Skills (2000) Schools, Parents and Parental Responsibility.
http://www.dfes.gov.uk/publications/guidanceonthelaw/dfeepub/jun00
[mynediad 16 Awst 2005]

Government UK Parental Rights and Responsibilities
https://www.gov.uk/parental-rights-responsibilities/who-has-parental-responsibility [mynediad 28 Mehefin 2018]

One Plus One
http://oneplusone.org.uk/marriedornot/ParentalResponsibility.htm
[mynediad 16 Awst 2005

Thompson Solicitors (2001) Parental Responsibility
http://www.thompson.law.co.uk

http://www.bma.org.uk/ap.nsf/Consent/Parental
[mynediad 16 Awst 2005]